

CERAMIC

SERIES ●

# catrin howell

potters from wales

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH ARTS

ABERYSTWYTH ARTS CENTRE


February 1995
number 70

I have followed Catrin Howell's career closely from foundation student to professional artist and I have seen her develop strongly and consistently over the years.

I first met Catrin when we were studying together at Carmarthen College of Technology and Art in 1989. We were the only two students who had opted to take Ceramics that year so we obviously spent a lot of time with each other. Even then she was constantly working, covered hand to foot in ceramic dust and glaze in true student style, and of course, no dust mask in sight.

Catrin was born and brought up on a farm on the outskirts of the old mill town of Drefach Felindre, near Newcastle Emlyn, in Dyfed. She says the most important memories from her past had involved the animals that she had grown up with and seen every day. The mysteries and legends that surround the area of West Wales where she has lived for most of her life have influenced her and her character over the years.

September 1989 saw Catrin moving on to Wolverhampton Polytechnic to study her BA in Ceramics. In the spring of 1991 she spent a brief but extremely influential time in the United States studying at the highly regarded Alfred University, New York State. It was during this time abroad that she was inspired to make her first piece of animal sculpture. A project brief had been set to make a carved sarcophagus using images or events from the past as a source of information. She examined the role that animals play in \Native American culture and found that storytelling and animals played a large part. Becoming more and more fascinated with these stories she began to relate them to the many myths and legends that surround her own native part of Wales. With all this in mind she returned to Wolverhampton to the final year of her honours degree. Her work took a new turn and she produced a series of giant animal sculptures based on the old legends of Mabinogi. The work earned her a First Class Honours Degree and the second prize in the Craftline Award for Excellence in Ceramics. The work from her degree show had already been exhibited at the Victoria and Albert Museum in March 1993 at the 'Ceramic Contemporaries' exhibition where she received a Judges Commendation from the curator, Oliver Watson. In August of that year she exhibited at the National Eisteddfod, Llanelwedd, Powys which resulted in one of her pieces entitled 'Balancing Dogs' being purchased for the Ceramic Collection at the University of Wales, Aberystwyth.



Catrin continued for one more year as an associate student at Wolverhampton which also coincided with an exhibition in November entitled 'In the Forest of the Night' at the Midlands Art Centre with Mo Jupp, Michael Flynn and Pamela Leung. After this extremely industrious period she was invited back to Wolverhampton, this time as a visiting lecturer. This brings us up to January of 1994, and another group exhibition, this time at the Oxford Gallery entitled 'Animal Magic'. Catrin still resolutely believed that her

success was purely a case of luck. Being an artist myself, I knew luck had absolutely nothing to do with it. Catrin is a rare talent. Her work appears to defy gravity and any potter would agree that a small miracle is needed to make and fire such large and intricate sculptures. In February and March of 1994 Catrin carried on making her balancing dogs. The dogs are piled high, sheltering from the flood waters featured in the legend of Cantre Gwaelod. It is the story of a drowned kingdom, known to-day as Cardigan Bay. Catrin has interpreted the story by showing animals scrambling on top of each other to try and escape the rising flood waters. The, animals, she says are not meant to look frightening but to have an element of the clumsy and playful. Their sharp claws and teeth of porcelain contrasting with the rough and pinched bodies of the writhing dogs create a tension that, even though painstakingly created, has spontaneity and sensitivity and the capability of evoking snarling and frightened beasts, both vicious and vulnerable at the same time.

To those who do not know Catrin well she seems to be a private and reserved person. To friends and colleagues however she impresses as a deeply committed and enthusiastic artist, a person with a great sense of fun whose work belies her meek and shy exterior.

In May 1994 Catrin received her highest accolade to date. She won the award of Merit at the Fletcher Challenge Awards in New Zealand which put her firmly into the picture as one of the leading new talents in the British ceramic arena. In July 1994 she won the joint third prize in the Craft Masterpiece Gold Medal in the Craft and Design section at the National Eisteddfod, Neath. She ended the year by spending the summer as a ceramics instructor at an American Summer Camp in New York state.

A piece that had been previously purchased by Aberystwyth University in 1993 was featured in an all woman exhibition entitled 'Hands that do Dishes' in September 1994. Moira Vincentelli, curator, recently spoke of Catrin in Ceramic Review. 'What is wonderful about Catrin Howell's work is her rethinking of the animal form. It's wild and free.'

This may all sound almost too good to be true. Many artists will spend most of their lives trying to attain such heights of public and professional critical acclaim. Catrin has achieved in two years what many artists would only hope to have achieved after a lifetime's work. Yet if you speak to Catrin even now she still quite honestly believes that her whole success has been a series of unexplainable lucky breaks. Even though her modesty is genuine, I do not think that luck has much to do with it.

Her next challenge is a ten week residency, beginning in February 1995 at Thurso, Caithness in the far North of Scotland. The residency, based at the local library is for research into the local legends of the area. The aim is to find links and contrasts to the stories and mythical characters of Wales and to create work that will be made at the local school. She is hoping to bring new and even more fantastic beasts into being through her studies up North.

Although Catrin has achieved exceptional artistic recognition for one so young, thus far this recognition has not yet translated itself into a reasonable income that can support her completely. This necessitates her taking all sorts of part time jobs to make ends meet. Nevertheless, Catrin is determined and her main priority is to constantly develop her building skills so she can push her dogs to even more precarious heights.


Catrin is not a potter but loves working in clay. Many potters and ceramic artists have exerted a great influence on her work most notably Susan Halls, Michael Flynn and Jeremy James. Her sculptures are, however, ultimately inspired by nature, much of them by the many dogs that live on the farm. From this point she then prefers to look deeper into her own Welsh culture to find a very personal visual language of her own.

**by Sarah James**

Exhibition 11 February - 25 March 1995

*Supported by the Craft Department, Arts Council of Wales*

© Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth Arts Centre



CYFRES ●
GERAMEG

catrin howell


crochenyddion o gymru

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH ARTS

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH

Chwefror 1995
rhif 70

Bûm yn dilyn gyrfa Catrin Howell yn agos dros y blynyddoedd diwethaf; o'i dyddiau fel myfyrwraig sylfaen hyd at yr adeg pan aeth yn arlunydd proffesiynol, cyfnod sydd wedi gweld datblygiad cryf a chyson yn ei gwaith. Cyfarfum â Catrin am y tro cyntaf pan oeddem ein dwy'n astudioyng Ngholeg Celf a Thechnoleg Caerfyrddin ym 1989. Ni'n dwy oedd yr unig fyfyrwragedd a oedd wedi dewis astudio cerameg y flwyddyn honno, ac, wrth reswm, buom yng nghwmni ein gilydd am gyfnodau hir. Hyd yn oed yr adeg honno byddai Catrin yn gweithio'n ddi- baid, ac, fel y byddai pob myfyriwr, yn gramen o gerameg, llwch a gwydredd o'i phen i'w sawdl. Ganed a maged Catrin ar fferm ar gyrion Drefach Felindre ger Castellnewydd Emlyn yn Nyfed. Yn ôl Catrin, deillio o'r anifeiliaid y cafodd ei magu yn eu mysg ac a welai o'i chwmpas bob dydd y mae'r atgofion pwysicaf sydd ganddi o'r gorffennol. Hefyd bu chwedlau a llê n gwerin y rhan yma o orllewin Cymru lle y mae wedi treulio rhan fwyaf ei hoes, yn ddylanwad cryf ar ei chelfyddyd a'i chymeriad. Ym mis Medi 1989, symudodd Catrin i Bolitechnig Wolverhampton er mwyn astudio ar gyfer BA mewn Cerameg. Yng ngwanwyn 1991, treuliodd gyfnod byr ond pwysig yn yr Unol Daleithiau lle y bu'n astudio ym Mhrifysgol enwog Alfred yn Nhalaith Efrog Newydd. A thra yn America fe'i hysbrydolwyd i fynd ati i lunio ei darn cyntaf ar ffurf anifail. Roedd project yn y coleg yn gofyn am arch garreg gerfiedig gan ddefnyddio delweddau neu ddigwyddiadau o'r gorffennol fel ysbrydoliaeth. Bu Catrin yn ymchwilio swyddogaeth anifeiliaid yn niwylliant brodorol America a darganfu fod gan adrodd straeon ac anifeiliaid le canolog yn y diwylliant hwnnw. Cafodd ei hudo fwyfwy gan y straeon hyn a dechreuodd weld cysylltiad rhyngddynt â llawer iawn o fythau a chwedlau bro ei mebyd yng Nghymru. Gyda'r profiad yma'n fyw yn ei meddwl, dychwelodd i Wolverhampton ar gyfer blwyddyn olaf ei gradd. Cafwyd trobwynt yn ei gwaith a dechreuodd lunio cyfres o gerfluniau anifeiliaid anferthol wedi'u seilio ar chwedlau'r Mabinogi. Enillodd Radd Ddosbarth Cyntaf yn sgil y gwaith yma ynghyd ag ail wobr Craftline am ragoriaeth mewn cerameg. Roedd y gwaith y sioe a baratowyd ar gyfer ei gradd eisoes wedi'i arddangos yn Amgueddfa Victoria ac Albert ym mis Mawrth 1993 yn Arddangosfa Cyfoeswyr Cerameg lle y derbyniodd Ganmoliaeth y Beirniaid gan y curadur, Oliver Watson. Ym mis Awst y flwyddyn honno, bu'n arddangos yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelwedd ym Mhowys lle y prynwyd un o'i darnau "Cŵn yn Cydbwyso" ar gyfer Casgliad Cerameg Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Daliodd Catrin ati am flwyddyn arall fel myfyrwraig gysylltiedig yn Wolverhampton gan gynnal arddangosfa ym mis Tachwedd o'r enw "Yng Nghoedwig y Nos" yng Nghanolfan Celfyddydau Canolbarth Lloegr gyda Mo Jupp, Michael Flynn a Pamela Leung. Ar ô l cyfnod hynod weithgar fe'i gwahoddwyd yn ô l i Wolverhampton, y tro yma fel darlithydd gwâ dd. Daw hyn â ni hyd at fis Ionawr 1994, ac arddangosfa arall ar y cyd, y tro yma yn Oriel Rhydychen o dan y teitl "Hud Anifeiliaid". Roedd Catrin yn dal yn grediniol



mai lwc yn unig oedd yn gyfrifol am ei llwyddiant. A finnau'n arlunydd, gwyddwn yn iawn nad oedd a wnelo lwc dim oll â'r llwyddiant yma. Mae gan Catrin ddawn brin. Ymddengys fel pe bai ei gwaith yn herio disgyrchiant a byddai pob crochenydd yn cytuno bod angen gwyrth i lunio a thanio cerfluniau sydd mor fawr ac eto mor fanwl. Drwy fis Chwefror a Mawrth 1994, daliodd Catrin ati i wneud ei chŵn cytbwys. Mae'r cŵn wedi'u pentyrru'n uchel, gan ymgeleddu rhag llifogydd Cantre Gwaelod, y deyrnas a foddwyd dan ddyfroedd Bae Ceredigion. Mae Catrin wedi dehongli'r stori drwy ddangos yr anifeiliaid yn dringo ar ben ei gilydd i ddianc rhag y llif. Nid oes unrhyw fwriad i'r anifeiliaid godi braw ond yn hytrachmaent i fod braidd yn lletchwith a chwaraeus eu golwg. Mae'r gwrthgyferbyniad rhwng eu hewinedd a'u dannedd porslen miniog a'u cyrff gwinglyd, garw wedi'u pinsio, yn creu tyndra, ac er bod y tyndra yma wedi'i greu'n fanwl ofalus, ceir yma fywyd a sensitifrwydd a'r gallu i gyfleu ysgyrnygu creaduriaid ofnus, sy'n filain ac yn ddiymgeledd yr un pryd. I'r rheini nad ydynt yn nabod Catrin yn dda, ymddengys fel pe bai'n ferch breifat ac encilgar. I'w chyfeillion a'i chydweithwyr fodd bynnag, mae hi'n amlwg ei bod yn arlunydd ymroddedig a brwd a chanddi hiwmor hwyliog. Ei swildod a'i fwynder allanol a ddatgelir drwy'i gwaith. Ym mis Mai 1994, derbyniodd Catrin y clod uchaf hyd yn hyn. Enillodd Wobr gyda Theilyngdod yng Ngwobrau Her Fletcher yn Seland Newydd a'i gosododd yn ddigamsyniol yn y ffrâm fel uno'r prif ddoniau newydd ym myd cerameg gwledydd Prydain. Ym mis Gorffennaf 1994, enillodd drydedd wobr yng nghystadlaeth y Fedal Aur yn adran Grefft a Dylunio Eisteddfod Genedlaethol Castell Nedd. Gorffennodd y flwyddyn drwy dreulio'r haf fel athrawes gerameg mewn gwersyll haf yn America yn nhalaith Efrog Newydd. Dangoswyd darn a brynwyd eisoes gan Brifysgol Aberystwyth ym 1993 mewn arddangosfa gan fenywod o dan y teitl "Dwylo Golchi Llestri" ym mis Medi 1994. Yn ô l Moira Vincentelli, curadur y casgliad, a fu'n trafod Catrin yn ddiweddar yn y Ceramic Review: "Yr hyn sy'n braf am waith Catrin Howell yw'r ffordd y mae hi wedi ailwampio ffurf anifeiliaid. Yn wyllt ac yn rhydd." Hwyrach bod hyn i gyd yn swnio'n rhy dda i'w gredu. Bydd llawer iawn o arlunwyr y treulio rhan fwyaf eu bywydau'n ceisio cyrraedd y fath uchelfannau o ran clod cyhoeddus a phroffesiynol. Mae d`sCatrin wedi cyflawni mewn dwy flynedd yr hyn na fyddai llawer iawn o arlunwyr ond yn gobeithio ei gyflawni ar ô l gwaith einioes. Eto i gyd, os siaradwch â Catrin, hyd yn oed yn awr, deil i gredu'n hollol ddiffuant mai cyfres o droeon lwcus fu'i holl lwyddiant hyd yn hyn. Pa mor ddilys bynnag y mae ei gwyleidd-dra, nid wyf o'r farn fod a wnelo lwc â 'r peth o gwbl. Yr her nesaf iddi yw preswyliad deg wythnos, sy'n dechrau ym mis Chwefror 1995 yn Thurso, Caithness yng ngogledd yr Alban. Wedi'i leoli yn y llyfrgell leol, bydd y preswyliad yn ymchwilio chwedlau lleol. Yr amcan yw cael hyd i storiau a chymeriadau mytholegol yng Nghymru ac i greu gwaith y bydd yn cael ei wneud mewn ysgol leol. Drwy'i hastudiaethau yn y gogledd, mae hi'n gobeithio llunio creaduriaid sydd hyd yn oed yn fwy ffantastig. Er bod Catrin wedi derbyn cydnabyddiaeth artistig neilltuol a hithau mor ifanc, nid yw'r gydnabyddiaeth yma eto wedi'i drawsnewid yn incwm cynhaliol. Golygai hyn fod yn rhaid iddi gymryd pob math o swyddi rhan-amser er mwyn cadw deupen ynghyd. Serch hynny, mae Catrin yn benderfynol o ddal ati, a'i phrif flaenoriaeth yw datblygu ei sgiliau adeiladu o hyd fel y gall wthio'i chŵn i uchelfannau sydd hyd yn oed yn fwy simsan. Nid crochenydd yw Catrin ond mae hi wrth ei bodd yn gweithio hefo clai. Mae llawer iawn o grochenyddion ac arlunwyr cerameg, fodd bynnag, wedi cael cryn ddylanwad ar ei gwaith, yn fwyaf nodedig Susan Halls, Michael Flynn a Jeremy James. Yn y pen draw, fodd bynnag, daw'r ysbrydoliaeth ar gyfer ei cherfluniau o fyd natur, llawer iawn ohonynt gan yr holl gŵn sy'n byw ar y fferm. O'r safbwynt yma felly, mae'n well ganddi edrych yn ddyfnach i'w diwylliant Cymraeg cynhenid er mwyn darganfod ei hiaith weledol ei hun.

**gan Sarah James**
Arddangosfa 11 Chwefror - 25 Mawrth 1995
*Cefnogwyd Gan Adran Grefft Cyngor y Celfyddydau*

© Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth Arts Centre